# Pam mae angen ffermio mwydod arnom?

Mae ffermio mwydod yn arf bwerus ar gyfer newid cadarnhaol ac mae'n helpu i adeiladu'r seiliau ar gyfer cymunedau iach, gwydn ac atgynhyrchiol.

## MYND I'R ÂFAEL NEWID HINSAWDD




Mae gwastraff bwyd sy'n pydru yn rhyddhau'r nwyon tŷ gwydr methan ac ocsid nitrus sy'n 31 a 310 gwaith yn gryfach na charbon deuocsid.

## MWYDOD I BAWBD




Mae gwrtaith mwydod yn gost isel, yn dechnoleg syml ac yn berffaith ar gyfer y ddinas. Does dim angen gardd i gadw ychydig o fwydod, byddan nhw'n hapus iawn o dan y sinc yn eich cegin.

## RHEOLI GWASTRAFF YN GYNALIADWY



Mae mwydod yn dwlu am wastraff organig. Maen nhw'n ateb ar gyfer rheoli gwastraff ar raddfa ddomestig a diwydiannol - o fwyd i wastraff anifeiliaid - sy'n effeithlon, ecolegol ac yn ddarbodus.

## ANSAWDD DŴR




Mae defnyddio gwrtaith mwydod yn lle gwrtaith artiffisial yn atal maetholion rhag gollwng i ddŵr daear, sy'n achosi ewtroffigedd sy'n arwain at farwolaeth creaduriaid dyfrol.

## ANSAWDD AER



Mae defnyddio gwrtaith mwydod yn lle gwrtaith artiffisial yn lleihau llygryddion o gemegau amaethyddol a cherbydau tanwydd ffosil yn cludo gwastraff i safleoedd tirlenwi.

## ADFER TIR




Mae gwyddonwyr wedi darganfod gallu mwydod i lanhau gwastraff gwenwynig, adfer tir fferm sydd wedi'i lygru gan blaladdwyr er mwyn cynhyrchu bwyd a datblygu cymunedau iach.

## MENTER GYNALIADWY




Mae gwrtaith mwydod yn darparu rheoli gwastraff organig lleol a chyfleoedd menter amaethyddol i ffermwyr da byw gan ddefnyddio gwastraff anifeiliaid i gynhyrchu gwrtaith mwydod.

## DIOGELWCH BWYD



Gyda llai na 60 mlynedd o uwchbridd byd-eang ar ôl o ganlyniad i amaeth diwydiannol, mae ffermio mwydod yn darparu'r sylfeini i gynhyrchiant bwyd iach ffynnu.

## CADWRAETH DŴR



Mae gan wrtaith mwydod gapasiti dal dŵr ardderchog, gan gadw 50% o leithder ac mae'n adeiladu gwydnwch yn erbyn cyfnodau eithafol o sychder a glaw trwm.


www.theurbanworm.co.uk
theurbanwormUK
mswormologist

THE URBAN WORM

BIG LOTTERY FUND
NATIONAL LOTTERY FUNDED